



A dyna ni mae 2025 bron a do di ben!

Blwyddyn arall wedi mynd heibio a thymor cyfan wedi darford. Mae'r Meithrin wedi cwblhau eu tymor cyntaf. Rwy'n siŵr bod pawb yn edrych ymlaen at wyliau a gorffwys.

And there we are, 2025 has nearly come to an end!

Another year gone by and a whole term gone. The Meithrin have completed their first term at school. I am sure everyone is ready for the Christmas

Blwyddyn 1 a 2

Yn ystod y tymor rydym wedi bod yn brysur iawn. Fe aeth Blwyddyn 1 a 2 i'r Sŵ. Cafodd y plant llawer o hwyl yn gweld llwyth o anifeiliaid gwahanol fel yr eliffantod, llewod a mwncïod. Roedd y plant yn mwynhau rhannu straeon am yr anifeiliaid a dysgu mwy am y wahanol gynefinoedd. Roedd yn ddiwrnod hwyl a phrofiad braf i bawb.

During this half term year 1 and 2 went to the Zoo. The children enjoyed seeing lots of different animals such as elephants, giraffes, monkeys, lions, and penguins. They were excited to talk about what they saw and ask questions about their favourite animals. It was a lovely day and a great experience for everyone.



### Blwyddyn 3 a 4

Mwynhaodd Blwyddyn 3 a 4 daith ysgol gyffrous i Park in the Past, lle cafodd y disgyblion gyfle i gamu'n ôl mewn amser i ddysgu am fywyd yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid ym Mhrydain. Yn ystod yr ymweliad, archwiliodd y plant leoliadau hanesyddol wedi'u hail-greu a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol a ddaeth â hanes y Rhufeiniaid yn fyw, gan ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r pwnc. Cefnogodd y profiad trochi hwn eu dysgu a chyfoethogi gwaith y dosbarth mewn ffordd gofiadwy.

Year 3 and 4 enjoyed an exciting school trip to Park in the Past, where pupils stepped back in time to learn about life in Roman Britain. During the visit, the children explored reconstructed historical settings and took part in hands-on activities that brought Roman history to life, helping to deepen their understanding of the topic. This immersive experience supported their learning and enriched classroom work in a memorable and engaging way.

### **Diwrnod Siocled / Chocolate Day**

Diolch i bawb a wnaeth gefnogi PTA gyda diwrnod siocled ar gyfer y Ffair. Roedd hwn yn ddiwrnod llwyddiannus dros ben a bu cefnogaeth dda iddynt gyda gymaint o siocled yn cael ei gyfrannu – Diolch

Thank you to everyone who supported the PTA Chocolate Day. This was a very successful day and we had so much chocolate for the fair. Thank you for supporting.

### **Dŵr Cymru / Welsh Water**

Daeth Dŵr Cymru i'r ysgol a cafwyd gwasanaeth a oedd yn pwysleisio nad oes angen gwastraffu dŵr. Yna cafwyd gweithdy yn nosbarth 3 a 4. Bu rhaid iddynt ddarganfod sut i gysylltu pibellau dŵr mewn pentref gan sicrhau bod pawb yn cael dŵr a pheidio a cholli dŵr yn unman. Er gwlyb iawn oedd y dosbarth.

Welsh Water visited school and an assembly was given on the importance of reducing our water usage and saving water. Following on from assembly year 3 and 4 had a workshop, piping water into a village from a reservoir and making sure there were no leaks. We had a wet classroom at the end!



### **Ffair Nadolig / Christmas Fair**

Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth gefnogi Ffair Nadolig PTA. Roedd yn werth chweil. Daeth Siôn Corn i'n gweld a fe wnaeth roi anrheg i bawb. Roedd mor braf gweld cymaint ohonoch yno.

Diolch yn fawr i'r PTA am drefnu unwaith eto.

Thank you to everyone for supporting the School Fair. It was so busy in the hall. Superb! Father Christmas made a visit and every child received a present. It was such a pleasure to see you all there.

Once again thank you to the PTA for arranging.



### **Cinio Nadolig / Christmas Lunch**

Daeth pawb y neu siwmperi Nadolig i fwynhau ein cinio Nadolig. Roedd Anti Anna, Anti Karen a Anti Dawn wedi paratoi gwledd bendigedig. Diolch yn fawr iawn.

Thank you to our fabulous trio of cooks Aunty Anna, Aunty Karen, and Aunty Dawn. It was a delicious feast. Thank you very much.



### Taith Siôn Corn a'r Ceirw / Santa Dash and Reindeer walk

Fel rhan o'r diwrnod mae'r plant yn cymeryd rhan yn milltir y dydd. Roedd ymgyrch milltir y dydd wedi gofyn os fuasai pob ysgol yn cymeryd rhan mewn Milltir y dydd Nadoligaidd. Felly ffwrdd a ni o gwmpas y pentref yn ein hetiau Siôn Corn a Cyrn Ceirw. Bore braf iawn.

Everyday the older children take part in mile a day. Mile a Day kindly asked if we would take part in a Santa Dash mile a day. So off we went round the village in our Santa hats and Reindeer ears. A very enjoyable morning.



### Sindarella / Cinderella



Unwaith eto mi oedd pantomeim Theatr Clwyd yn ardderchog. Fe wnaeth pawb ei fwynhau. Diolch i bawb am fod y plant gorau yn y panto.

Years 1 to 6 went on our annual Theatr Clwyd trip to see the Panto. As usual they all really enjoyed the panto and the children were brilliant.



### Cyngherddau Nadolig / Christmas Concerts

Diolch i bawb am cyngherddau Nadolig arbennig iawn. Roedd pob un plentyn wedi gwneud ei ran yn ardderchog. Roedd y staff wedi gweithio mor gael i gael safon gwyh.

Rwy'n siŵr bod pob un ohonoch wedi mwynhau yn fawr iawn a dwi yn gwybod bod rhai ohonoch wedi bod mwy nag unwaith.

Gobeithio i bob un ohonoch fwynhau y cyngherddau.

Diolch hefyd i'r PTA am drefnu paned.

Thank you to everyone for such brilliant Christmas Concerts. Every child played their part. The staff had worked so hard and they were of such good standards. I am sure everybody enjoyed the concerts and I know many of you watched them more than once.

Thank you to the PTA for organising the refreshments.

### Raffl Fawr / The Raffle

Y raffl fawr. Roedd rhodd y crys Wrecsam gan Mickey Thomas ei hun wedi creu cynnwrf. Bu i bron i 1000 o docynnau eu gwerthu. Mi oedd nifer o wobrau eraill hefyd. Ar ddiwedd ein cyngerdd olaf fe wnaethom dynnu y raffl. Fe wnaeth Mila dynnu y tocyn cyntaf a fe enillodd Gwyneth Morgan y crys-t Wrecsam. Llongyfarchiadau mawr iddi hi.

The Big Raffle. The Wrexham signed shirt donated by Mickey Thomas caused a bit of stir this year. Nearly a 1000 tickets were sold. There were many other prizes to be won too. At the end of the concert Mila pulled out the winning ticket. A huge Congratulations to Gwyneth Morgan for winning the shirt



### **Disgo / Disco**

Wel! Cafwyd gymaint o hwyl yn y disgo. Welis i gymaint o blant yn dawnsio a fe fu rhai ohonoch ar y llwyfan yn canu karaoke! 2 awr o ddawnsio! Dwi yn siŵr aeth pawb o'r ysgol wedi blino yn lân.

The children had so much fun in the disco. I have never seen so many children dancing for the full 2 hours. Some of them even went on stage to sing karaoke. I am sure they all went home tired!

### **Presenoldeb**

Diolch am eich cefnogaeth gyda phresenoldeb eich plant. Mae hyn yn darged sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru ac bydd presenoldeb yn cael ei fonitro unwaith eto ym mis Tachwedd. Byddwch yn ymwybodol bod ysgol yn cychwyn am 8.50 Os ydych yn hwyr mae hyn yn cael ei gyfrif fel absenoldeb di-awdurdod. Mae rhaid cyrraedd ar amser. Rwy'n siwr eich bod yn deall os yw eich plentyn yn sâl eu bod yn aros adref. Er hynny mi fydd salwch yn cael ei fonitro yn ofalus.

Mae'r ysgol yn caniatáu 10 diwrnod o wyliau y flwyddyn os yw presenoldeb eich plentyn yn gyson o leiaf 90% yn yr ysgol a rhaid cofio mai ar ddisgresiwn y caniateir hyn, nid yw yn ganiataol ei fod yn cael ei awdurdodi.

Mae yn gyfreithiol bod pob plentyn yn yr ysgol bob amser os nad yw yn sâl.

### **Attendance**

Thank you so much for supporting school with your child's attendance. This is a Welsh Government priority and from now on it will be monitored once every half term. Please be mindful that school starts at 8.50. If you are late this is an unauthorised absence. It is so important to arrive on time. I'm sure you understand if your child is ill that they should stay at home. However, illnesses are also monitored.

School does authorise 10 days of holidays a year as long as your child's attendance is consistent and over 90%. Please be mindful that it is the school's discretion if your holiday is authorised, it should not be taken for granted.

All parents have a legal duty to ensure their child is in school unless unwell.

Dyddiadau i'ch Dyddiadur

**Nôl i'r Ysgol Dydd Mawrth, Ionawr 6ed 2026**

**Back to School Tuesday, January 6<sup>th</sup> 2026**



Côd QR ar gyfer Llythyrau  
QR code for Newsletters

- Mae'r calendar wedi ei ddiweddarau ar y wefan. Cofiwch os nad ydych yn rhy siŵr am ddyddiadau maent i gyd ar gael ar y wefan: [Calendar | Ysgol Terrig](#)  
Bydd dyddiadau eraill yn cael eu ychwanegu yn fuan, unwaith mae trefniadau wedi cael eu gwneud



Côd QR ar gyfer Calendar  
QR code for Calendar

### Addysg Gorfforol / PE

Diwrnod /Day	Bore	Prynhawn
Dydd Llun / Monday		Meillion 3 a 4 Clychau'r Gog 5 a 6
Dydd Mawrth / Tuesday		
Dydd Mercher / Wednesday	Lili Wen Fach 1 a 2	
Dydd Iau / Thursday	Llygaid Y Dydd Meithrin a Derbyn	
Dydd Gwener / Friday		

### Dillad Addysg Gorfforol

Crys-t gwyn / crys-t Ysgol Terrig neu Crys-t dathlu 70

Siwmpwr Ysgol

Leggings/joggers/siorts du neu las

### Clybiau ar ôl Ysgol tan 4pm

Diwrnod /Day	Ar ôl ysgol
Dydd Llun / Monday	Chwaraeon blwyddyn 3-6
Dydd Mawrth / Tuesday	
Dydd Mercher / Wednesday	Celf blwyddyn 3-6 Celf Derbyn 1 a 2
Dydd Iau / Thursday	
Dydd Gwener / Friday	



Cylchlythyr Ysgol Terrig  
01352 770235

[postterrigan@hwbcymru.net](mailto:postterrigan@hwbcymru.net)